Pris: 50c

# Papur Pawb

Mehefin 2023 Rhif 490




Yr ysgol yn dathlu. Gweler Tud.8 ....

tud 3 **Pobl a Phethe**

tud 4 **Ras am Fywyd**

tud 9 **Rali CFfI**

tud 12 **Bendigedig**

# Dathlu'r Degawd – Pen blwydd Hapus Cletwr!



Edith Heron a'i mwg (llun: Ant Jarrett)

**Roedd gerddi Cletwr yn llawn o wynebau hapus a lliwgar ar ddiwrnod heulog ar Fai 13eg i ddathlu deng mlynedd o'r prosiect cymunedol arloesol hwn. Mae Cletwr wedi ennill amryw o wobrau cenedlaethol dros y blynyddoedd. Bu gweithgareddau drwy'r prynhawn a'r nos gan gynnwys peintwyr wynebau, Jules a Fanny, y modelwr balŵn Miss Popularity a chwarae gyda RAY Ceredigion. Bu gwirfoddolwyr a staff yn gweithio'n galed yn coginio byrgyrs ar gyfer dros 150 o bobl a mwynhawyd hyn wrth wrando ar areithiau gan gymuned Cletwr ac aelodau o Fwrdd Cletwr. Cafwyd perfformiad cyntaf gan fand disgyblion Ysgol Penglais, 'Humanzee' a bu cyd-ganu cynulleidfaol gan Andy Lloyd-Williams.**



Freya Taylor yn dathlu (llun: Ant Jarrett)

Torrodd Shelagh Hourahane, un o'r aelodau sefydlu, y gacen fendigedig a wnaed gan Amy o Sugarlife Aberystwyth. Cyhoeddwyd mai Edith Heron oedd enillydd y gystadleuaeth 'Dylunio Mwg'. Bydd y mygiau argraffiad cyfyngedig hyn ar gael i'w prynu yn y siop am £10. Cofiant perffaith o'r gymuned gyfoethog yr ydym yn byw ynddi.

I unrhyw un a gollodd gyfle i ddymuno'n dda i Cletwr, gallwch alw heibio ac ysgrifennu ychydig eiriau yn y llyfr bwrdd coffi yn y caffi.

Hoffai Cletwr ddiolch yn fawr iawn i'w holl gwsmeriaid, mynychwyr digwyddiadau a'u gwirfoddolwyr. Maent yn gobeithio parhau i ddathlu degawdau o hwyl, dysgu gyda'n gilydd a bwyd lleol yn yr ardal arbennig iawn hon.

Ysgrifennodd T James Jones bennill i ddathlu'r achlysur.

**Degawd Caffi Cletwr**

Cododd criw'r Cletwr gwrol ei fusnes,<br>
a'i fasnach deg, lesol,<br>
a nwyddau hardd bro Tre'r Ddôl,<br>
o'r degawd creadigol.

Jim Parc Nest

## Y Cynllun Band Eang Ffeibr

Yn anffodus, rydym wedi derbyn gwybodaeth siomedig iawn am Gynllun Band Eang Ffeibr Cymunedol Ceulanamaesmawr. Y bwriad oedd cael cabinet newydd ym mhentref Tal-y-bont. Ond mae *Broadway Partners*, y cwmni oedd yn mynd i gyflenwi'r band eang ffeibr gwib gyswllt, wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr. Mae'r cyswllt cymunedol yn *Broadway*, Reece Simmons, ynghyd â llawer o rai eraill wedi cael eu diswyddo ar unwaith. Gobeithiwn gael rhagor o wybodaeth am ddyfodol y cynllun yn fuan.

**Iwan Jones**

Gwasanaethau Pensaerniol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
**helen.iwan@btinternet.com**
01970 832760

**James Memorials**

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

*Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

## Papur Pawb

**Golygydd Cyffredinol:**
Gwyn Jenkins
**(01970) 832560**
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
**golygydd@papurpawb.com**

**Tynnu lluniau:**
Cysyllter â golygyddion y mis

**GOHEBYDDION LLEOL**

**Tal-y-bont:**
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
**832592**

**Parsel Henllys:**
Rhys Huws, Llwyn Onn
**832076**

**Bont-goch:**
Cathryn Lloyd-Williams
**cat_yfoel@hotmail.com**

**Llangynfelyn:**
Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
**832573**

**Eglwys-fach/Ffwrnais:**
Non Griffiths
**(01654) 781264**

**Rhwydweithiau cymdeithasol:**
Ceri Morgan

**CYMDEITHAS PAPUR PAWB**

**Cadeirydd:**
Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
**832697**

**Is-gadeirydd:**
Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
**832773**

**Ysgrifennydd:**
Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
**832344**

**Trysorydd:**
Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
**832093**

**Tanysgrifiadau:**
Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
**832448**

**Hysbysebion:**
Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont

**Dylunio:**
Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

**Plygu'r Papur:**
Gwenllïan Parry-Jones; Beti Jenkins

**Dosbarthwyr:**
Lynn Ebenezer; Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon, John Evans

*Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.*

CYMRAEG

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan...
**www.papurpawb.cymru**
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

## GOLYGYDDION

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Rhian a Shân, gyda Iolo yn dylunio.
Diolch iddynt.

Mae Papur Pawb yn cael gwyliau dros yr haf. Golygyddion rhifyn Medi fydd Gwyn a Fal (golygydd@papurpawb.com). Y dyddiad cau yw 1 Medi a bydd y papur ar werth ar 8 Medi.

# Y Mab Darogan



Llongyfarchiadau i Rhian Nelmes, Tre'r Ddôl, Anwen Howard, Tal-y-bont, Huw Lewis, Tre'r Ddôl a Claire Jones, Ffwrnais am orffen eu hail daith gyda'r sioe 'Y Mab Darogan'. Buont yn teithio gyda Chwmni Theatr Maldwyn a pherfformio yn Theatr Hafren, Y Drenewydd, Neuadd Dewi Sant, Caerdydd a Chanolfan Pontio, Bangor ym mis Ebrill a mis Mai.

### CYNGOR LLANGYNFELYN

### GWAHODDIAD I DENDRO

Mae'r cyngor yn gwahodd unigolion i dendro am gytundeb i dorri, cynnal a chadw gwrychoedd ar hyd rhyw 1300m o lwybrau cyhoeddus yn y plwyf.
Am rhagor o wybodaeth cysyllter â'r clerc
cyngorllangynfelyn-council@hotmail.co.uk
07974488564
Y Clerc, Cyngor Cymuned Llangynfelyn, Ynystudor, Tre'r-ddôl, Machynlleth, Powys, SY20 8PL
Erbyn diwedd Mehefin 2023 fan bellaf

## CYMDEITHAS PAPUR PAWB

Cynhelir CyfarfodBlynyddol y Gymdeithas

ar nos Lun 10 Gorffennaf am 7.30

yn Neuadd Goffa Tal-y-bont

Croeso cynnes i bawb

### Hanes y Neuadd Goffa

Yn 2024 bydd yn gan mlynedd ers agoriad swyddogol Neuadd Goffa Tal-y-bont. Bydd pwyllgor y Neuadd yn trefnu dathliadau a dwi wedi derbyn comisiwn i ysgrifennu hanes y Neuadd. Dwi'n awyddus i glywed gan unrhyw un sydd ag atgofion clir a/neu ffotograffau am weithgareddau/digwyddiadau yn y Neuadd dros y blynyddoedd. Mae gen i ddiddordeb arbennig mewn clywed am y degawdau cynharaf, gan dderbyn nad oes neb yn cofio 1924! Gallwch gysylltu â mi dros y ffôn (832560) neu drwy ebost gwynjenkins81@gmail.com

Gwyn Jenkins

*Rhian*
trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

Cofiwch anfon manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o'r papur.

# DYDDIADUR

**MEHEFIN**

11 **Bethel** 10 Gwilym Tudur (C)
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Cymun Bendigaid
14 **Taith gerdded** 2–3 Cletwr
16 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch** Cinio, ac ymweld â Llyfrgell Genedlaethol Cymru
17 **Dal ati** 10.30–11.30 Cletwr
**Te prynhawn** Henoed Llangynfelyn 3 Neuadd Llanfach
18 **Bethel** 10 Uno â Seion, Gwilym Tudur
**Rehoboth** 2 Bugail
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**Bethesda, Tynant** 2 dan ofal Ysgol Sul Bethel a Gwilym Tudur
22 **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 7 Hwyrol Weddi
23 **Sesiwn Nos Wener** (Bwca) 8 Llew Gwyn
25 **Bethel** 10 Oedfa Deulu, David Jones
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

**GORFFENNAF**

1 **Dal ati** 10.30–11.30 Cletwr
2 **Bethel** 10 Uno â Seion, Gwilym Tudur
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**Eglwys Sant Pedr, Elerch** 2.30 Cymun
9 **Bethel** 10 Gwilym Tudur (C). Paned i ddilyn yn y Neuadd
**Rehoboth** 5 Bugail
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Cymun Bendigaid
12 **Taith gerdded** 2–3 Cletwr
15 **Dal ati** 10.30–11.30 Cletwr
16 **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
20 **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 7 Hwyrol Weddi
23 **Bethel** 10 Geraint Evans
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
30 **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

**AWST**

6 **Rehoboth** 2 Bugail
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**Eglwys Sant Pedr, Elerch** 2.30 Cymun
13 **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Cymun Bendigaid
20 **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
24 **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 7 Hwyrol Weddi
27 **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

**MEDI**

3 **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**Eglwys Sant Pedr, Elerch** 2.30 Cymun
10 **Rehoboth** 11.15 Bugail
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

BOB WYTHNOS
**Cletwr** Dydd Mawrth 1–4 'Clonc a Gweu'

# Pobl a Phethe

**Gŵyl Ddrama Corwen**
Llongyfarchiadau i Caoimhe Melangell am ddod yn ail yn y gystadleuaeth Perfformio Monolog neu Ymgom yng Ngŵyl Ddrama Corwen.

**Profedigaethau**
Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Dewi Evans, Bow Street, sef Dewi Tŷ Nant a fu farw mis Mai.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu Enfys Teddy o Landrindod, gynt o Dal-y-bont, a fu hefyd farw'n ddiweddar.

Gyda thristwch y clywyd am farwolaeth Dr Myrtle Parker, gynt o Dal-y-bont ym mis Hydref. Nodwyd yn yr 'Old Ardwynians' mai hi oedd un o'r cyntaf ymhlith merched Ardwyn i hyfforddi i fod yn feddyg.

Cydymdeimlwn â theulu Iorwerth "Iori" Jones, Brynamor, Taliesin a fu farw yn 90 mlwydd oed ym mis Mai.

**Gwellhad buan**
Dymuniadau gorau a gwellhad buan i Ann Humphreys, Llys-teg, Taliesin sydd yn Ysbyty Bronglais ar hyn o bryd. Gobeithio na fydd yn hir nes bydd Ann yn ôl yn ein mysg.

Gwellhâd buan i Rob Evans, Trem y Rhos, Bontgoch, sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty.

**Dyweddïad**
Llongyfarchiadau i Iolo a Mari Davies, Doleifion ar eu dyweddiad.



**Priodas**
Llongyfarchiadau i Einion a Tirion, 1 Dan-y-graig, Tal-y-bont ar eu priodas yng Nghapel Maengwyn, Machynlleth ar y 13eg o Fai.



**Priodas**
Llongyfarchiadau i Rosie Bailey, Troedrhiwseiri, Bontgoch a Harrison Threadgold ar eu priodas ar Fai'r 25ain yn Eglwys y Santes Fair, Thirsk.

**Cartref Newydd**
Croeso i Rhys a Lauren sydd wedi ymgartrefi yn Hedd y Mynydd, Tre'r Ddôl gyda'i merch fach.

**Genedigaethau**
Llongyfarchiadau i Steffan ac Aisha Nutting ar enedigaeth eu mab bach ac i Dei a Mair, Tŷ Hen Henllys, ar ddod yn Ddadcu a Mamgu a hefyd gor ŵyr i Mrs Nutting ac i Gwilym ac Ann, Llety'r Bugail.

Llongyfarchiadau i Dafydd a Ruth Panthaul ar enedigaeth eu merch fach ac i Dadcu a Mamgu Cefngweiriog a Drws y Coed ar enedigaeth eu hwyres gyntaf.

Llongyfarchiadau i Barbara Jenkins, Hafod Ifan ar ddod yn hen famgu i ferch fach Dafydd a Ruth a mab bach Esyllt a Llyr yn Llanwenog.

**Dathlu Penblwydd**
Llongyfarchiadau mawr i Mair Rowlands, Fferm Erglodd wrth iddi ddathlu penblwydd arbennig ddechrau mis Mehefin.

Roedd yr efeilliaid Cath Williams, Maesderi a Mags, Tŷ Gwyn, Bontgoch yn dathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar.

Penblwydd Hapus yn 18 oed i Cai Wyn Thomas. Mwynha'r dathlu Cai!

**Y Fferyllfa**
Braf gweld Cerian Screen yn ôl yn gwasanaethu yn y Fferyllfa, Tal-y-bont.

**Sinfonia Cymru**
Roedd Cletwr yn llawn dop ar nos Wener Mai 12fed gyda bobl o bob oed yn gwylio cyngerdd arbennig am ddim gan Sinfonia Cymru. Roedd y cyngerdd yn rhan o'i 'Mainly Village Hall Tour'. Cafwyd awr o gerddoriaeth glasurol hyfryd wedi'u perfformio gan driawd llinynnol.

## Cymorth Cristnogol

Daeth eto yn amser casglu at Gymorth Cristnogol, ac eleni bu newid yn y tîm casglu. Roedd Geraint Evans am roi'r gorau iddi wedi blynyddoedd o fynd am Bontgoch. Diolchwn iddo am ei barodrwydd i gynorthwyo.

Braf oedd cael croesawi pedawr enw newydd sef Richard Huws sy'n gafalu am Bontgoch, Mererid Watson, Ceri Morgan a Holly Aunrey yn casglu mewn rhannau o'r pentref, gyda gweddill y tîm yn mynd o gwmpas fel arfer.

Casglwyd fel a ganlyn

| | |
|---|---|
| Gwaelod Pentref Talybont / Mererid Watson | 39.66 |
| Pensarn a Chwm Ceulan / Margaret Jenkins | 116.90 |
| Parsel Henllys - Wendy Watkin a Janet Jones | 161.48 |
| Ardal Cynnullmawr – Dei Nutting | 230.00 |
| Penlon a'r Ffald / Ceri Morgan a Holly Aubrey | 97.68 |
| Bontgoch / Richard Huws | 191.26 |
| Maesyderi a Phenrhiw / Nia Richards | 137.29 |
| Stryd y Capel - Falyri Jenkins | 214.97 |
| Pentref Talybont / Helen Jones | 10.07 |
| CYFANSWM | £1,119.31 |

Ar ran y pwyllgor hoffwn ddiolch i bawb am y rhoddion hael ac i'r casglwyr a fu'n eu derbyn.

Janet Jones

## David Desmond Jenkins

Fel nodwyd yn rhifyn diwethaf Papur Pawb trist oedd clywed am farwolaeth David (Dai Jenks). Roedd yn 66oed ac yn byw yn Swydd Hertford. Cafodd ei fagu yn Cwm Road ac yna symud i Teras Ceulan, gyferbyn â'r sgwâr. Mynychodd Ysgol Tal-y-bont ac yna Ysgol Dinas. Ar ôl gadael yr ysgol bu David yn gweithio fel gofalwr meysydd chwarae ysgolion yn Aberystwyth. Yn ddiweddarach ymunodd â'r Gwarchodlu Cymreig. Gwasanaethodd yn y lluodd arfog am 22 mlynedd, gan gael ei ddyrchafu i Ringyll. Roedd yn y fyddin pan oedd rhyfel y Falklands ar ei anterth yn 1982.

Roedd gan David ddiddordeb mawr mewn pêl droed a bu'n dyfarnu mewn gemau ar lefel uchel. Rhedodd mewn sawl marathon gan gynnwys Marathon Llundain ddwy waith.

Cydymdeimlwn gyda'i wraig a'i ferch. Hefyd Ei Fam sydd yn 94 oed a Heather ei chwaer.

Cofiaf am David fel person tawel a diymhongar.


Côf da amdano.

John Evans

# Ras am Fywyd – *Race for Life*

**Ar Ddydd Sul Mai 14eg, cymerodd lawer o'r ardal ran yn y ras flynyddol i godi arian ar gyfer 'Cancer Research UK'. Bu rhai yn cerdded 5 km ac eraill yn rhedeg 5 km neu 10 km. Rhaid nodi fod Sarah Mckenna, Ffwrnais, wedi rhedeg y ras bob blwyddyn am ugain mlynedd.**

**Da iawn i bawb am gymryd rhan.**




Ela, Gerwyn a Swyn Jones



Becky Knight a Sarah Mckenna



Michelle, Mali a Dawn

# Bwyell garreg Neolithig



Cefais hyd i'r garreg tra'n cerdded ar lwybr Glyndŵr uwchben Cwmrhaiadr, ardal Glaspwll, Machynlleth cyn y cyfnod clo. Roedd trac newydd wedi'i greu ar hyd llethr serth yna a llwyth o'r garreg siâl (*shale*) lleol i'w weld. Dyna sylwi ar garreg wahanol iawn yn dangos hanner allan o'r pridd. Sylwais yn syth ei fod yn siâp diddorol, o garreg igneaidd ac yn drwm iawn am ei maint. Dwi byth yn cael hyd i bethau trymion ar ddiwedd tro ond wastad ar y dechrau a rhaid oedd ei chario wedyn am filltiroedd! Dangosais y garreg i sawl un yn y cylch am eu barn…a cefais anogaeth gan Prof Henry Lamb, Glandŵr, Talybont i gysylltu efo'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd. Ond wedyn digwyddodd Covid ac am fisoedd fu'r garreg yn gegin Awelon yn edrych yn rhyfedd ar silff o IKEA! Dyna siom pan o'r diwedd cefais gyfarfod ag arbenigwr ar yr Oes Neolithig yn yr Amgueddfa y llynedd – nid oedd yn meddwl bod y garreg wedi ei siapio gan law dynol ond mi roeddwn i'n benderfynol a gofynnais iddo am farn arall ymhlith ei gydweithwyr. Rhaid oedd gadael y garreg efo'r Amgueddfa ac mi aeth chwe mis heibio ac roeddwn i wedi anghofio amdani….nes imi dderbyn e-bost gan bennaeth yr adran yn cadarnhau mai bwyell garreg o'r Oes Neolithig 4,000-2,500 cyn Crist ydoedd. Mae'r pen efo'r llafn wedi torri ond mae'n glir iddi gael ei naddu ac yn eistedd yn berffaith mewn llaw. Mae hi wedi cael ei chofnodi gan yr Amgueddfa Genedlaethol ond bellach mae hi nôl yn gegin Awelon ac mae croeso i chi alw i'w gweld hi os oes diddordeb gennych chi.

Lisa Tomos

**Garej Davmor**

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont




**LLAETH LLEOL ORGANIG**
ar gael yn y
Cwtsh Llaeth Aberystwyth a Machynlleth
www.llaethjenkinsmilk.co.uk
07813 827 712
@cwtshllaeth



# Y SIOP, BONT-GOCH

*Enillodd Carys Briddon, Tre'r ddôl, y wobr gyntaf yn Eisteddfod Penrhyn-coch am ei hysgrif ar y testun: 'unrhyw siop, garej neu fusnes teuluol'. Diolch i Carys, yr eisteddfod a'n chwaer-bapur bro Y Tincer am ganiatáu i ni gynnwys yr ysgrif yn Papur Pawb. Bydd ail ran yr ysgrif yn ymddangos yn rhifyn Medi.*

Fy Nhad-cu, James Pearce Evans (neu 'Jim Siop' fel yr adwaenid ef), fu'n cadw'r siop ym mhentref Bont-goch o fis Tachwedd 1905 ymlaen, a bu'r siop yn y teulu hyd fis Medi 1963. Cyn hynny, bu fy Nhad-cu yn gweithio yn y gwaith mwyn lleol yn Esgair-hir, cwm Ceulan, a phan oedd dyddiau da y gweithfeydd mwyn yn dod i ben ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf, cododd ei bac a mentro symud i dde Cymru i weithio yn y gweithfeydd glo yno am gyfnod. Mae'n sôn yn ei ddyddiadur yn 1901 am y gwaith caled a gyflawnai o dan y ddaear, a'r cwymp a fu bron a'i ladd. Ond dod yn ôl i'w gynefin a wnaeth ymhen amser, gan briodi Avarina, merch i deulu talentog a diwylliedig y Morganiaid, Tŷ'n-rhyd, Cwmystwyth, ar 14 Tachwedd 1905, a bu'r ddau yn byw yn Tanllidiart, Bont-goch, am gyfnod.

Yr wythnos ganlynol aeth fy Nhad-cu i weld perchennog y siop a oedd yn byw yn Llynloew, Bont-goch, i drafod a fyddai modd iddo brynu'r siop a oedd wedi ei lleoli yn y pentref. Daethpwyd i gytundeb y noson honno a setlo'r cyfan am y siop. Rai dyddiau wedyn aeth i weld ei ffrind a gadwai siop ym Mhont-y-geifr i gael cyfarwyddiadau ganddo ar sut i redeg siop. Drannoeth aeth gyda'i ffrind at James Jones yn Nhal-y-bont a phrynodd lwyth o nwyddau ganddo, gwerth £11.5.9½. Cyrhaeddodd yn ôl i Bont-goch am 5 o'r gloch, ac o'r noson honno ymlaen dechreuodd werthu nwyddau yn y siop. Roedd yno o 9 o'r gloch y bore hyd 9 o'r gloch yr hwyr, a dywed yn ei ddyddiadur fod pethau yn 'gwerthu yn dda iawn'. Mae'n debyg nad oedd y cyn-berchennog yn y siop yn aml iawn, a phan fyddai pobl yn galw roedd drws y siop ar glo. Mae'n debyg nad oedd adeilad y siop honno yn addas iawn, a phenderfynodd fy Nhad-cu adeiladu siop newydd gyferbyn â'r hen un. Cafodd help gan ffrind arall, a'r ddau ohonynt wnaeth adeiladu'r tŷ a'r siop newydd tua 1906/1907, a dyna lle bu fy Nhad-cu, Mam-gu a'r teulu'n byw am weddill eu hoes.

Nid siop bentref yn unig oedd hon, ond roedd yn fangre diwylliant hefyd. Roedd bechgyn ifainc y pentref a'r ffermydd cyfagos yn cwrdd yn y siop gyda'r nos a dyna lle byddent yn trafod pynciau'r dydd neu yn chwarae dominos neu gemau eraill hyd oriau mân y bore. Roedd fy Nhad-cu a Mam-gu yn bobl ddiwylliedig iawn, yn darllen llawer, yn llenydda ac yn adroddwyr storïau heb eu hail. Roedd teulu a ffrindiau wrth eu bodd yn galw yn y siop gyda'r nos i'w clywed yn adrodd storïau a hanesion a oedd gan amlaf yn llawn hiwmor. Roedd drws y siop a'r tŷ bob amser ar agor ar unrhyw awr o'r dydd. Byddai cwsmeriaid yn galw'n rheolaidd, un ai gyda'r esgus o nôl neges fach, ond yn fwy na thebyg i glywed y newyddion diweddaraf yn yr ardal gan mai'r siopwr fyddai'n



Y siop yn yr 1930au.

dueddol o glywed pob stori yn gyntaf. Gellir disgrifio fy Nhad-cu fel 'cyfarwydd' gan ei fod yn hoffi adrodd storïau, gwyddai hanes y gweithfeydd mwyn yn yr ardal ynghyd â hanes eu capteniaid, roedd yn gwybod achau teuluoedd, roedd ganddo ddiddordeb mewn llên gwerin a byd natur, gwyliai'r lleuad, y sêr, yr awyr ac ymddygiad anifeiliaid i gael rhagolygon y tywydd, ac ymddiddorai mewn meddyginiaethau gwerin – deuai pobl o bell ac agos ato i gael gwellhad o wahanol anhwylderau ac i gael eli i wella eryrod. Roedd hefyd yn credu mewn ysbrydion a'r goruwchnaturiol, ac yn honni iddo brofi rhagarwyddion marwolaeth drwy weld toili, cannwyll gorff neu aderyn corff. Felly, mae'n amlwg fod nosweithiau difyr wedi eu cynnal ar aelwyd y siop dros y blynyddoedd, a byddai'r rhai a glywsai'r storïau ysbryd yn ofni mynd adref gyda'r nos, yn enwedig os oedd hi'n noson dywyll fel y fagddu.

Carys Briddon






**Clwb Hen Beiriannau**

Ar nos Fercher y 10fed o Fai daeth Erwyd Howells atom i roi hanes ardal Nant-y-moch cyn boddi'r cwm nôl yn chwedegau cynnar y ganrif ddiwethaf. Mae Erwyd yn adnabyddus fel hanesydd lleol sydd wedi ymddiddori trwy'i oes ym mhobl a thraddodiadau cefn gwlad.

Cawson ein tywys trwy ei gasgliad eang o luniau gyda stori yn gysylltiedig â phob un. Canolbwyntiodd yn bennaf ar y brodyr James sef John a Jim Nantymoch. Dyma ddau frawd gwreiddiol a diwylliedig dros ben.

Mae'n dda fod Erwyd wedi sylweddoli pwysigrwydd diogelu'r math yma o luniau.

Pwysleisiodd pa mor werthfawr yw rhoi enwau ar gefn lluniau. Mae gwers yma i ni gyd!

Diolch Erwyd, mae'n siwr fod deunydd sawl cyfarfod ganddo. Edrychwn ymlaen at y gaeaf!

John Evans




# Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr a gynhaliwyd nos Lun 22 Ebrill 2022 am 7.00pm yn Neuadd Goffa Tal-y-bont

**Yn bresennol:** Ellen ap Gwynn (Cadeirydd), Nia Richards, Catrin Davies (Cynghorydd Sir), Bleddyn Huws, Siôn Pennant Jones, Eryl Bray, Nest Jenkins, Mererid Watson, Enoc Jenkins, Elgan Evans

**Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r Cyfarfod Blynyddol.

**Ymddiheuriadau:** Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**Adroddiad y Cadeirydd:** Cyflwynodd y Cadeirydd ei hadroddiad i'r cyfarfod, fel a ganlyn:

**Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr 2022/23**

Yn dilyn ail-enwebu Cynghorwyr am y cyfnod 2022-2026, daeth 11 enw ymlaen a ni fu'n rhaid cynnal etholiadau. Fodd bynnag, bu newid yn yr aelodaeth a chroesawyd y Cynghorwyr Eryl Bray, Elgan Evans, Siôn Pennant Jones a Mererid Watson i'n plith. Parhaodd y Cynghorwyr Ellen ap Gwynn, Rhian Evans, Catrin MS Davies, Bleddyn Huws, Enoc Jenkins, Nest Jenkins a Nia Richard yn eu swyddi.

Wedi 23 mlynedd daeth tymor y Cynghorydd Ellen ap Gwynn fel Cynghorydd Sir Ward Ceulanamaesmawr i ben a llongyfarchwyd y Cynghorydd Sir newydd Catrin M.S. Davies ar ddechrau ei thymor hithau. Etholwyd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn yn Gadeirydd y Cyngor Cymuned am y flwyddyn 2022/23.

Methwyd â phenodi Clerc newydd ar ddechrau'r flwyddyn Fwrdeistrefol a pharhaodd Mr RAB Jones yn y swydd hyd ddiwedd Mehefin. Ni lwyddwyd i benodi yn barhaol hyd Chwefror 2023 pan dderbyniodd Mrs Lynwen Rees Jones y swydd. Yn y cyfamser bu'n rhaid i'r Cadeirydd ac aelodau eraill o'r Cyngor ymgymryd â rhai o ddyletswyddau'r Clerc a diolchwyd yn gynnes i Mr Denfer Morgan am ei gyngor parod ac am ddod i'r adwy yn achlysurol.

Ni lwyddwyd i symud ymlaen fel y byddem wedi gobeithio ar gynlluniau megis gwella'r Cae Bach a'r llwybr i'r Fynwent yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, bu'r Cynghorwyr, yn eu tro, yn adrodd yn fisol ar gyflwr offer y Cae Bach a Maes Chwarae Bontgoch i sicrhau diogelwch yr offer.

Ymunodd aelodau o'r Cyngor yng Ngwasanaeth y Cofio yn y Neuadd Goffa a chyflwynwyd dwy dorch i'r gymuned.

Sicrhawyd coeden Nadolig hardd ar y Patshyn Glas eleni eto a goleuadau fel arfer ar flaen y Neuadd.

Prynwyd batris newydd ar gyfer y Diffibrilwyr yn Nhal-y-bont a Bontgoch i sicrhau eu bod i gyd yn parhau yn weithredol.

Daeth y wefan newydd yn fyw yn ystod mis Tachwedd 2022.

Adolygwyd prisiau'r Fynwent a daeth y telerau newydd i rym ar 27 Chwefror 2023.

Prynwyd hysbysfyrddau newydd i'w gosod: un ar wal dalcen y toiledau yng ngwaelod y pentref ac un ym Montgoch yn lle'r hen un a oedd wedi cwympo a thorri.

Rhoddwyd Polisi Hyfforddiant a Datblygu yn ei le ym mis Ionawr, a bydd angen adolygu polisïau eraill yn fuan.

Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus i drafod sefyllfa'r Orsaf Pwmpio Carthffosiaeth sydd ar afon Ceulan ar waelod y pentre. Ni chafwyd unrhyw sicrwydd gan Dŵr Cymru y byddai gwaith buan yn cael ei wneud yno. Penderfynodd y Cyngor roi grant i Grŵp y Llifogwyr i'w galluogi i brofi ansawdd y dŵr yn afonydd Leri a Ceulan a chadw cofnod dros amser.

Adroddwyd sawl mater trwy Clic i Adran Priffyrdd y Cyngor Sir. Gwnaethpwyd gwaith i gryfhau ffordd Cwm Eleri ond mae dal angen sylw ar sawl hewl yn y Gymuned. Cafwyd gwybod y bydd cyflymder traffig ar yr hewlydd oddi fewn i pentre Tal-y-bont yn cael ei ostwng i 20mph ym mis Medi. Yn anffodus nid oedd Asiantaeth y Priffyrdd yn fodlon gosod Croesfan Sebra o flaen yr ysgol.

Oherwydd trafferthion wrth drosglwyddo mandad Banc HSBC i aelodau newydd ac i'r Clerc newydd cafwyd cryn drafferth o ran cael trefn ar y cyfrifon yn ystod y flwyddyn. Mae'n dda adrodd bod pethau i gyd mewn trefn erbyn hyn a'r cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn wedi eu mantoli.

Dosbarthwyd grantiau Adran 137 gwerth £4,000 a grantiau eraill gwerth £1,100.

Cytunwyd i godi Praesept o £16,000, a gosodwyd cyllideb o £21,500 ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Llwyddwyd i ddenu grant o £561.55 i ddigolledu'r Cyngor am waith yn y Fynwent i baratoi'r rhan newydd i'w chysegru.

Derbyniwyd grant o £500 i gynnal 'Cwtsh Cynnes' i bobl ddod at ei gilydd yn ystod y gaeaf. Bu'r boreau coffi a gynhaliwyd yng ngwaelod y Neuadd yn hynod o lwyddiannus a denwyd hyd at 15 o bobl yn wythnosol.

Erbyn hyn, mae'r cyngor wedi cydymffurfio â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 trwy greu cynllun gweithredol a'i roi ar waith. Mae'r cynllun wedi ei anfon at Un Llais Cymru a hefyd Llywodraeth Cymru, a'r bwriad yw ei gyhoeddi ar ein gwefan newydd. Penodwyd y Cynghorwyr Nia Richards ac Eryl Bray i arwain y gwaith o warchod a chydnerthu ecosystemau a chynefinoedd – mae'r ddwy yn rhan o rwydwaith werdd Un Llais Cymru – Pethau Bychain ac wedi mynychu cyfarfodydd y grŵp. Erbyn hyn, mae'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth ar agenda pob cyfarfod misol a rhoddir ystyriaeth i Adran 6 ymhob trafodaeth am geisiadau cynllunio, a dechreuwyd addasu ein rhaglen torri gwair a chynnal mannau gwyrdd. Cyhoeddwyd erthygl ym Mhapur Pawb yn cyflwyno Adran 6 i'r gymuned gan amlinellu ein hamcanion a'n hawydd i gyd-weithio â'r gymuned a sefydliadau lleol i warchod yr adnoddau naturiol sydd yn ein cylch gorchwyl.

Diolch yn fawr i'm cyd Gynghorwyr am eu parodrwydd i ymgymryd â gwahanol ddyletswyddau yn ystod y flwyddyn. Wrth gefnogi ein gilydd rydym yn llwyddo i wasanaethu'r gymuned yn well.

Ellen ap Gwynn – Cadeirydd 2022/23

**Adroddiad Ariannol:** Roedd sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn:

Y cyfrif cyfredol: £7,208.03 (gyda sieciau gwerth £772.83 heb fynd allan eto)
Y cyfrif cadw: £4,788.94
Cyfrif Mynwent y Tabernacl: £5,520.30

Diolchodd y Cadeirydd i Marc Richards am roi'r Cyngor ar ben ffordd o ran y cyfrifon yn ystod y flwyddyn.

Roedd Nia Richards wedi anfon rhestr gyfredol o asedau'r Cyngor at y Clerc – i'w dosbarthu ymhlith y Cynghorwyr.

Roedd Archwilio Cymru wedi gofyn am gysoniad banc ar gyfer cyfrifon 2020-21 a 2021-22 ac roedd y Cadeirydd wedi anfon y manylion perthnasol ymlaen.

**Ethol Cadeirydd newydd:** Cynigiodd Catrin Davies y dylai'r Cadeirydd presennol, Ellen ap Gwynn, barhau yn y swydd am flwyddyn arall. Eiliwyd hyn gan Nia Richards. Derbyniodd y Cadeirydd a phasiwyd y cynnig yn unfrydol.

**Ethol Is-gadeirydd:** Cynigiodd Nia Richards y dylai'r Is-gadeirydd presennol, Rhian Evans, barhau yn y swydd am flwyddyn arall. Eiliwyd hyn gan Catrin Davies. Derbyniodd yr Is-gadeirydd a phasiwyd y cynnig yn unfrydol.

**Dewis aelodau'r is-bwyllgorau a chynrychiolwyr:** Bydd y Cadeirydd yn aelod o bob is-bwyllgor, a chytunwyd ar yr aelodau eraill fal a ganlyn:

**Yr is-bwyllgor cyllid:** Bleddyn Huws, Enoc Jenkins, Rhian Evans

**Is-bwyllgor y fynwent:** Nest Jenkins, Nia Richards, Enoc Jenkins, Rhian Evans

**Yr is-bwyllgor cynllunio:** yr holl Gynghorwyr Cymuned

**Is-bwyllgor y Caeau Chwarae:** Cynigiodd Nia Richards bod y pwyllgor newydd hwn yn cael ei ffurfio a phasiwyd y cynnig yn unfrydol. Cytunwyd ar yr aelodaeth ganlynol: Nia Richards, Catrin Davies, Mererid Watson, Eryl Bray

**Cynrychiolydd ar gyfer y Cylch Meithrin:** Elgan Evans

**Cynrychiolydd ar gyfer Un Llais Cymru:** Rhian Evans

**Swyddog Ariannol:** y Clerc

**Cyfrifydd Mewnol:** Nia Richards

**Archwilydd Allanol:** enwebwyd Mr Ieuan Morgan i barhau â'r dasg hon. Y Clerc i gysylltu ag ef i ddiolch iddo am ei waith yn y gorffennol a gofyn a fyddai'n dymuno ymgymryd â'r gwaith eto.

**Unrhyw Fater Arall:** Nodwyd bod y Rhwydwaith Gwyrdd ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yn cael ei redeg gan Un Llais Cymru. Cytunodd Nia Richards ac Eryl Bray i gynrychioli'r Cyngor unwaith eto.

Cytunodd Mererid Watson i ofalu am y diffibrilwyr.

Daeth y cyfarfod o ben am 7:30pm

# Merched y Wawr
# Tal-y-bont a'r Cylch

Nos Lun, Mai 15fed bu raid i'r aelodau dorchi eu llewys yn llythrennol wrth iddynt gael cyfle i drin a thylino clai dan gyfarwyddyd y crochenydd Gwladys Evans, Bontgoch a'r ddwy cymhorthion Serian a Sioned. Mae Gwladys yn arddangos ei gwaith mewn orielau ac yn mynychu ffeiriau crefftau a'r Eisteddfod Genedlaethol. Cafodd yr aelodau gyfle i gynllunio pedair teilsen gan ddefnyddio dail, blodau a llythrennau. Ar ddiwedd y noson aeth Gwladys â'r holl deils adre gyda hi i'w tanio ddwywaith yn yr odyn pwrpasol sydd ganddi. Felly edrychwn ymlaen i gael gweld y teils gorffenedig. Diolchwyd i Gwladys, Serian a Sioned am noson ardderchog ac i Mair Rowlands ac Enid Evans a oedd yng ngofal y trefniadau.

# Clwb Gwawr y Pennau

**Aeth aelodau Clwb Gwawr y Pennau am daith i fyny Pendinas gyda Lisa Tomos yn eu tywys. Roedd hi'n noson hyfryd a'r tywydd yn berffaith ar gyfer taith gerdded. Gwelwyd golygfeydd bendigedig o'r top a dysgwyd lawer am hanes Pendinas gan Lisa. Gorffennwyd y noson gyda phryd o fwyd blasus yn 'Athro'. Diolch i Lisa a Lynwen am drefnu'r noson.**





Gwobreuo Nest Gwilym

Mae'r Clwb Gwawr wedi ennill gwobr genedlaethol o Fudiad Merched y Wawr am y gangen neu glwb sydd wedi denu'r nifer mwyaf o aelodau newydd. Llwyddwyd i gael cynnydd o 11 aelod mewn blwyddyn.

Enillodd Nest Gwilym, sy'n aelod o'r Clwb Gwawr, gystadleuaeth i ysgrifennu pennill i fynd tu fewn i gerdyn Nadolig Merched y Wawr fydd yn mynd ar werth. Cyflwynwyd tlws iddi yng Ngŵyl Haf, Cyfarfod Blynyddol a Chwaraeon Merched y Wawr ym Machynlleth. Dyma'r pennill. Llongyfarchiadau mawr iddi.

'Yng nghanol dwndwr bywyd
A rhuthr gwyllt y byd,
Boed i ni gofio'r baban
A ddaeth i ni mewn crud.'

Nest Gwilym


Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

# Gardd Gymunedol Llanfach



Grŵp cymunedol newydd yw Gardd Gymunedol Llanfach sy'n bwriadu trawsnewid yr ardal o amgylch neuadd Llanfach yn Nhaliesin i fod yn ofod lle gall pobl o bob gallu garddio gwrdd a helpu i dyfu ffrwythau, llysiau a blodau sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt. Bydd blaen y neuadd yn ardal hygyrch, gyda gwelyau uchel, yn ddelfrydol ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn ac ar gyfer pobl â symudedd cyfyngedig. Bydd cefn y neuadd yn cynnwys mwy o welyau uchel ar gyfer llysiau, twnnel polythen a llwyni ffrwythau. Mae cyllid wedi'i ddarparu gan Tyfu Dyfi i helpu gyda deunyddiau ac offer i roi cychwyn ar yr ardd. Bydd y criw yn cyfarfod yn Neuadd Llanfach ar Ddydd Sul Mehefin 11eg o 9.30 tan 12.00 i weithio ar yr ardd, ac yna yn cyfarfod bob yn ail fore Sul, ac mae croeso i bawb fynychu.

E-bostiwch **llanfachcommunitygarden@gmail.com** am fwy o wybodaeth.



# Ysgol

## Ysgol y Gymuned

**Caru Gwenyn**



Dros y misoedd diwethaf rydym wedi bod yn dysgu llawer iawn am wenyn mêl. Mae Dosbarth Mrs Rhys wedi bod yn cydweithio gyda Cletwr i ddilyn Cynllun Caru Gwenyn. Yn ystod mis Mai, daeth Helen Ovens i'r ysgol i rannu ei gwybodaeth a'i phrofiad o gadw gwenyn. Diolch yn fawr Helen a diolch am gael blasu'r mêl blasus. Mae arddangosfa o waith y dosbarth i'w weld yn Cletwr ar hyn o bryd – cofiwch alw fewn i'w weld.

**Mwyngloddwyr Tal-y-bont**

Cafodd Blwyddyn 6 sgwrs hynod ddiddorol gan Ioan Lord, yr arbenigwr ar fwyngloddiau ardal Tal-y-bont. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi bod yn dysgu am bwysigrwydd y gweithfeydd mwyn i'r pentref a'r cyffiniau ac yn ddiweddar rydym wedi bod yn canolbwyntio ar ddysgu mwy am fywyd, lles ac amodau gwaith y gweithwyr, yn enwedig y rhai a oedd yn byw yn y barics yn ystod yr wythnos. Diolch yn fawr Ioan am y sgwrs a diolch am ateb yr holl gwestiynau!

**Eisteddfod yr Urdd**




Llongyfarchiadau i ddwy ffotograffydd ifanc am gyrraedd y 3 uchaf yn Eisteddfod Celf a Chrefft y Cylch. Gwych Rosie ac Ariana a chofiwch ddal ti i dynnu lluniau!

## Ysgol Greadigol

**Sioe Jemima**

Ar hyn o bryd mae cynhyrchiad newydd, cyffrous gan Gwmni Theatr Arad Goch yn teithio o gwmpas theatrau Cymru. Mae'r sioe' cyflwyno hanes un o fenywod pwysicaf yn hanes Cymru sef Jemima Nicholas o Sir Benfro. Yn ogystal â rhannu'r hanes, cafwyd cerddoriaeth, ychydig o ddireidi, a lot o hwyl fel rhan o'r sioe. Roedd hi'n braf i gael cymaint o'r plant yn ymuno â'i ffrindiau a gweld sioe mewn theatr unwaith eto. Hoffwn ddiolch yn fawr i Gyngor y Celfyddydau am ei nawdd hael i'r digwyddiad.

**Cymdeithas Rhieni ac Athrawon**

Cynhaliwyd noson BINGO fywiog a difyr yn Y Llew Gwyn yn ystod mis Mai. Diolch o galon i bawb a weithiodd yn galed er mwyn gwneud y noson yn llwyddiant. Diolch arbennig i Eifiona, Gerwyn, staff Y Llew Gwyn ac wrth gwrs i Siân am alw ar y noson. Gobeithio fod pawb wedi mwynhau.

## Ysgol Iach

**Pêl Rwyd**




Llongyfarchiadau i'r criw pêl rwyd a oedd wedi cystadlu yn erbyn ysgolion Cylch Aberystwyth mewn pencampwriaeth diweddar. Da iawn chi ferched am gystadlu mor frwd, roedd y cydweithio a'r cyd-chwarae yn amlwg unwaith eto – gwych!

**Pêl-droed**




Llongyfarchiadau i'r criw pêl-droed hefyd a oedd wedi cystadlu'n dda iawn yn erbyn ysgolion cylch Aberystwyth. Cafwyd sawl gêm agos a sawl buddugoliaethau gwych hefyd – da iawn chi fechgyn ac mar hi bob amser yn brofiad arbennig i chwarae ar Goedlan y Parc hefyd.

# Tal-y-bont

**Cerdd y Gadair 2023**

**Yr Agoriad**

Wrth i mi gerdded ar hyd hen lwybrau cyfarwydd,
Mae fy meddwl yn glanhau,
Y nos sy'n fy nghysuro o fy mhroblemau,
Rwy'n gadael fy hun yn rhydd,
O! Mae'r twneli a'r copr yn arallfydol i mi,
Mae golau yn y pellter,
Ai hwn yw'r Agoriad?
Cerrig sgleiniog yn dallu fy llygaid,
Y twneli'n nadreddu fel map yn fy meddwl,
Meddyliau difyr
O'r amser lle'r oedd swllt yn fwy gwerthfawr na phunt.
O! Yr hen lwybrau.

Tomos Breeze, Blwyddyn 6

**Clwb ar ôl Ysgol**
Mae'r Clwb ar ôl Ysgol yn cynnig lle diogel i ofalu am blant tan 5.30 bob nos Fercher a nos Iau. Diolch yn fawr i Miss Eirian a Miss Watkin am drefnu'r gweithgareddau ar gyfer y plant.

**Gwersyll yr Urdd Glan-llyn**
Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn yw cael ymweld ag un o wersylloedd yr Urdd. Oherwydd effeithiau Covid-19, ni fu'n bosib gwneud hynny ers 3 mlynedd, felly roedd cryn dipyn o edrych ymlaen eleni fel y gallwch ddychmygu! Eleni aethom gyda phlant eraill o ysgolion Ceredigion gan rannu bws gyda disgyblion ysgol Rhydypennau.

Cafodd pawb lawer o hwyl gan fwynhau pob mathau o weithgareddau anturus fel adeiladu rafft, y wal ddringo, canŵio a'r cwrs rhaffau uchel. Cafwyd hwyl hefyd yn gwylio'r sioe adar ac yn y disgo wrth gwrs. Diolch yn fawr iawn i Urdd Ceredigion am drefnu'r trip ac i staff y Gwersyll am ofalu amdanom. Rwy'n siŵr y bydd gan bawb lawer o atgofion melys am yr ymweliad.





## CFfI Tal-y-bont



Gwion Evans a Bedwyr Siencyn

**Canlyniadau Clwb Tal-y-bont yn y rali**

- Barnu Moch Unigol Dan 21: **1af** Ynyr Siencyn
- Cneifio gyda Gwellau: **1af** Bedwyr Siencyn
- Coginio: **1af** Annie May James a Lleucu Nest
- Trin Gwlân: **3ydd** Sara Jenkins
- Cneifio o dan 21: **1af** Bedwyr Siencyn
- Cneifio o dan 26: **1af** Gwion Evans
- Tîm Cneifio: **1af** Bedwyr Siencyn a Gwion Evans
- Tynnu Rhaff: **2il** Tal-y-bont

## Cylch Meithrin Tal-y-bont



Mae'r Cylch Meithrin wedi bod yn brysur yn dysgu am wenyn. Maen nhw wedi bod yn 'Gwenyn Gweithgar' yn peintio gwenyn, blasu mêl a chreu cwch gwenyn. Diolch i Helen Ovens am ddod i siarad gyda ni am wenyn. Roedd pawb wedi mwynhau! Maen nhw hefyd wedi edrych ar flodau yr haul a phlannu rhai ein hunan ac yn cofio yn dda i roi dŵr yn aml. Mae'r plant hefyd wedi mwynhau defnyddio chwyddwydr i edrych am drychfilod yn yr ardd.

# Gŵyl Tyddyn a Chefn Gwlad



Eifiona Evans



Hari ac Ela Williams


Rhydian Evans

**Llongyfarchiadau i Rhydian ac Eifiona Evans am eu llwyddiant yn yr Ŵyl Tyddyn a Chefn Gwlad. Roedd Eifiona'n rhan o'r tîm yn cymryd rhan yn y Prawf Datblygu Trin Gwlân a daeth Eifiona a Beca Jackson (Cymru) yn ail i dîm Yr Alban. Daeth Eifiona hefyd yn ail yn y gystadleuaeth Trin Gwlân Agored. Enillodd Rhydian y gystadleuaeth Cneifio Agored gyda gwellau. Llongyfarchiadau i'r ddau.**

**Bu lawer o bobl yr ardal yn cystadlu mewn amryw o gystadlaethau gan gynnwys Hari ac Ela Williams yn yr adran ddefaid.**

**Dathlu'r Coroni**

I ddathlu'r coroni, cafwyd tê prynhawn yn nhafarn y Wildfowler. Paratôdd Chris a Michelle y brechdanau ac aelodau Cymdeithas y Chwiorydd y cacennau. Yn ogystal, mae Chris a Michelle yn dathlu 20 mlynedd ers iddynt gymryd drosodd y *Wildfowler*. Pob lwc iddynt i'r ugain mlynedd nesaf! Dyma Michelle James a Mali yn mwynhau'r tê.



NICEIC APPROVED CONTRACTOR
**Alun Davies**
Contractiwr Trydanol
**M** 07703 169813
Islwyn, Bow Street, Ceredigion SY24 5AR
**E** alun.davies142@btinternet.com

## DONIOL

Daeth amaethwr o Tecsas draw i Gymru i gwrdd â ffermwr lleol.
**Meddai'r Tecsan:** 'Mae'n cymryd diwrnod llawn i mi yrru i ben pella fy 'ranch' yn fy picyp.'
**Atebodd y Cymro:** 'Roedd gen i picyp tebyg ar un adeg.'

Roedd Wil mewn cariad â Ffrances.
Prynodd 'pendant' iddi gyda '*Le Monde*' wedi'i ysgythru arno.
Roedd yn golygu'r byd i'w gariad.




**Rydyn ni wedi gweld mis prysur yng Nghletwr – parti pen-blwydd, dau gyngerdd, diwrnod i ddathlu Peillwyr yn yr ardd, sesiwn i lansio Menter Animeiddio Ddigidol Gymunedol, arddangosfa celf newydd – a gwerthu tomen o hufen ia. Diolch o'r galon i bawb a gyfrannodd i sicrhau diwrnod bendigedig i'r cannoedd a ymunodd â'r hwyl. Hefyd cynhaliwyd dau gyngerdd go wahanol gyda llond tŷ iddynt ill ddau. Y noson cyn y parti, cawsom ymweliad gan driawd clasurol talentog o Sinffonia Cymru, a'r wythnos wedyn croesawyd triawd arall, Three Legg'd Mare, gyda'u cymysgedd pleserus o ganeuon gwerin Cymraeg a Saesneg. Diolch iddyn nhw oll. Edrychwn ymlaen at ymweliadau eraill yn y dyfodol.**

Mae'r siop a chaffi wedi bod dan ei sang, yn arbennig diolch i'r haul di-dor yn ddiweddar. Yn anffodus mae'r gegin dal ar gau ddydd Llun a dydd Mawrth, tan i'n staff newydd setlo i mewn.

Mae'r caffi dal ar agor, wrth gwrs, yn gwerthu diodydd, cacen a brechdanau i fynd allan. Mae newyddion drwg hefyd. Oherwydd y cynnydd diddiwedd yng nghostau popeth – bwyd yn arbennig – bydd rhaid i ni godi prisiau yn y caffi. Mae'n drist, ond dydyn ni ddim yn fodlon lleihau safonau ein bwyd a gwasanaeth drwy ddefnyddio cynhwysion o safon llai. Ond, rydym yn edrych ar ffordd i gynnig disgownt yn y caffi i'n cwsmeriaid ffyddlon. Mwy o newyddion am hynny yn y man.

Mae nifer o bethau newydd gyrraedd y siop. Ydych chi'n hoffi gemau bwrdd? Beth am brynu copi o'r gêm newydd gan Y Lolfa, "Owain Glyndŵr"? Mae'n gêm fwrdd cyffrous ar gyfer 2-4 person sydd wedi ei seilio ar wrthryfel Owain Glyndŵr. Nod y gêm yw teithio o amgylch map o Gymru yn ymweld â chestyll Cymreig a Saesneg. Yn y Gymraeg mae'r gêm, ond gyda chyfarwyddiadau dwyieithog, ac yn addas i ddysgwyr hefyd. Dim ond £25.

A newyddion rîli gwych – mae'r mefus Penlanlas cyntaf yr haf wedi cyrraedd, ac rydyn ni wedi llwyddo i gadw'r un pris â llynedd, sef £3.99. Dim esgus felly i beidio â'u joio nhw bob wythnos (bob diwrnod?)

Dyna i gyd am y tro. Ni fydd llawer o ddigwyddiadau dros yr haf, ond fe fydd drysau Cletwr ar agor bob diwrnod i chi. Dewch yn llu i joio'r haul gyda dishgled neu ysgytlaeth a hufen ia (mae rhai fegan gennym hyd yn oed).

# Gŵyl y Peillwyr Cletwr

A'r gŵr a finna wedi chwilio'n ofer am gacynen y llus ymhlith yr erwau o flodau llus o dan Darren y Gesail y diwrnod gynt, pleser o'r mwyaf oedd gweld cryn dipyn o bobl yn mynychu Gŵyl y Peillwyr yn y Cletwr 21 Mai, i gyd yn awyddus i ddathlu a chael gwybod mwy am bryfed peillio a sut gallwn ni eu helpu, o gofio'r ffaith bod eu niferoedd yn dal i ddirywio'n enbyd. Ceision ni ddarparu arlwy fyddai'n apelio at bawb – magl wyfynod i bobl gael y cyfle i weld rhai o'n gwyfynod hardd a dirgel yn agos; cwch arddangos gwenyn mêl gydag Ann Ovens a Roger wrth law i siarad amdanyn nhw; gweithgareddau celf fel paentio cerrig, lliwio delweddau o bryfed peillio, a gweithdy paentio blodau mewn dyfrlliw gyda Jenny Fell; sesiwn creu peli hadau blodau gwyllt; stondin yr Ymddiredolaeth Cadwraeth Cacwn a Caru Gwenyn, ynghyd â throeon o gwmpas gardd Cletwr i chwilio am gacwn a nodi'r blodau maent yn eu hoffi. Drwy garedigrwydd eu hathrawes Llio Rhys, roedd plant Ysgol Tal-y-bont wedi darparu arddangosfa fendigedig o luniau a cherddi'n ymwneud â gwenyn. Roedd ein stondin blanhigion yn gorlifo gyda phlanhigion sy'n denu peillwyr gan ddarparu neithdar a/neu baill iddyn nhw – diolch i bawb a'u cyfrannodd i'r stondin.

Roedden ni mor lwcus gyda'r tywydd hefyd – digon heulog heb fod yn rhy boeth a heb fawr o wynt. Braf ofnadwy oedd gweld sut roedd pawb yn mwynhau ac yn dangos cymaint o ddiddordeb ac mor sylwgar oedd y plant wrth chwilio am gachgi bwms yn yr ardd.



Os nad oedd modd i chi ddod i'r Ŵyl y tro 'ma, peidiwch â phoeni – rydyn ni wrthi'n barod yn cynllunio Gŵyl 2024!

Ac os hoffech chi ymuno â Grŵp Garddio clên y Cletwr a dysgu mwy am arddio er budd ein pryfed peillio, peidiwch â phetruso – cysylltwch â ni ar: **events@cletwr.com** i gael gwybod pryd bydd y sesiwn arddio nesa.


*Siân Saunders ar ran Caru Gwenyn Cletwr*






# Chwaraeon a Hamdden

## Dafydd Hughes a'r 'Bendigedig'



**Efallai y cofiwch am dudalen flaen Papur Pawb blwyddyn yn ôl – 'Rownd y Byd'. Mae Dafydd Hughes bellach bron yn barod i ddechrau ei antur anhygoel o hwylio o gwmpas y byd ar ben ei hunan.**



Am 13:00 ar y 26ain o Awst (diwrnod Sioe Tal-y-bont fel mae'n digwydd), bydd Dafydd a'r 'Bendigedig' yn croesi'r llinell gychwyn o *A Coruña*, Sbaen. Bydd yn cymryd rhan yn y 'Global Solo Challenge' a bydd yn treulio tua 200 o ddiwrnodau ar y daith. Bydd yn hwylio lawr o Sbaen am Dde Affrica, heibio gwaelod Awstralia a Seland Newydd, rownd Yr Horn ac wedyn nôl i'r gogledd fyny Cefnfor yr Iwerydd ac yn ôl i Sbaen. Pob hwyl i ti Dafydd!

## Llwyddiannau Megan Williams a'i cheffylau



Soden Emrys

**Mae Megan Williams, Tre'r Ddôl, wedi bod yn brysur iawn gyda'i cheffylau eleni yn teithio o amgylch y wlad yn cystadlu mewn sioeau gwahanol. Uchafbwynt eleni oedd cystadlu yn Sioe Frenhinol Ceffylau Windsor ym mis Mai. Ni chafodd Blaenmorlais Sinatra ei leoli, ond roedd yn brofiad gwych bod mewn dosbarth mawr o 22 o geffylau.**

Cafodd Megan lwyddiant anhygoel gyda Soden Emrys, cob Cymreig Adran D, yn arwerthiant Cymdeithas Merlod a Chobiau Cymreig ym mis Hydref. Enillodd y bencampwriaeth yno a gwerthwyd Soden Emrys am bris uchaf y dydd sef £14,000. Llongyfarchiadau mawr i ti Megan.



Blaenmorlais Sinatra





